OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 698

# Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) (Diwygio) 2017

**Diwygio Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) 2014**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) 2014(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1) (dehongli), yn y lle priodol, mewnosoder—

"ystyr "y Confensiwn Hawliau Dynol" ("*the Human Rights Convention*") yw'r Confensiwn ar Amddiffyn Hawliau Dynol a Rhyddidau Sylfaenol, a gytunwyd gan Gyngor Ewrop yn Rhufain ar 4 Tachwedd 1950 fel y mae'n cael effaith am y tro mewn perthynas â'r Deyrnas Unedig;".

(3) Yn rheoliad 3 (personau sy'n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo sy'n gymwys i gael dyraniad o lety tai)—

(a) ym mharagraff (d) ar y diwedd hepgorer "ac";

(b) ym mharagraff (e) ar y diwedd yn lle "." rhodder "; ac"; ac

(c) ar ôl paragraff (e) mewnosoder—

"(f) Dosbarth F – person sydd â chaniatâd cyfyngedig i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi ar seiliau bywyd teuluol neu breifat o dan Erthygl 8 o'r Confensiwn Hawliau Dynol, a'r fath ganiatâd wedi ei roi o dan baragraff 276BE(1), paragraff 276DG neu Atodiad FM i'r Rheolau Mewnfudo(**2**), ac nad yw'n ddarostyngedig i amod sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw ei gynnal a'i letya ei hun, ac unrhyw berson sy'n ddibynnol arno, heb ddibynnu ar gronfeydd cyhoeddus. "

(4) Yn rheoliad 5 (personau sy'n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo sy'n gymwys i gael cymorth tai)—

(a) hepgorer paragraff (1)(e);

(b) ym mharagraff (1)(f) ar y diwedd yn lle "." rhodder "; ac";

(c) ar ôl paragraff (1)(f) mewnosoder—

"(g) Dosbarth G - person sydd â chaniatâd cyfyngedig i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi ar seiliau bywyd teuluol neu breifat o dan Erthygl 8 o'r Confensiwn Hawliau Dynol, a'r fath ganiatâd wedi ei roi o dan baragraff 276BE(1), paragraff 276DG neu Atodiad FM i'r Rheolau Mewnfudo, ac nad yw'n ddarostyngedig i amod sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw ei gynnal a'i letya ei hun, ac unrhyw berson sy'n ddibynnol arno, heb ddibynnu ar gronfeydd cyhoeddus."; a

(d) hepgorer paragraffau (2) a (3).

(5) Yn rheoliad 6 (personau eraill o dramor sy'n anghymwys i gael cymorth tai), ym mharagraff (2) yn lle'r geiriau "dyraniad o lety tai" rhodder y geiriau "cymorth tai".

(**1**) O.S. 2014/2603 (Cy. 257).
(**2**) Gosodwyd y Rheolau fel a grybwyllir yn adran 3(2) o Ddeddf Mewnfudo 1971.